Taflen waith 2 Cynnal Ewrop a'r byd

Mae'r amgylchedd yn perthyn i bawb felly mae gan yr UE reolau ynghylch, er enghraifft, peidio â chreu llygredd, a diogelu planhigion ac anifeiliaid. Mae'r rheolau hyn yn ddilys ym mhob un o wledydd yr UE ac mae'n rhaid i'w llywodraethau sicrhau eu bod yn ufuddhau iddynt.

Bydd y daflen waith hon yn helpu disgyblion i ddeall mwy am ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys y cysylltiadau sydd rhwng materion amgylcheddol a materion cymdeithasol.

Ydy plastig yn ffantastig?

TGAU CBAC, Dylunio a Thechnoleg (Cynhyrchion Graffig)
Gweler y Cyflwyniad ar gyfer Athrawon am gysylltiadau cyffredinol â'r cwricwlwm

A ddylai'r UE orfodi gwledydd i gael yr un polisïau amgylcheddol?

- Daeth bagiau siopa plastig yn gyffredin yn y 1970au. Am eu bod yn gryf, yn gyfleus ac yn rhad i'w cynhyrchu, credai pawb eu bod yn syniad gwych. Erbyn heddiw, cynhyrchir cannoedd o biliynau bob blwyddyn dros y byd i gyd. Bydd llawer yn gorffen eu hoes trwy dagu draeniau, crogi o goed, neu trwy gael eu bwyta yn ddamweiniol gan anifeiliaid.

- Mae Bangladesh a Taiwan wedi gwahardd bagiau plastig yn llwyr. Mae Awstralia, De Affrica ac Iwerddon yn rhoi treth ar y bagiau i geisio perswadio pobl i beidio â'u defnyddio. Mae Cenia a De Affrica wedi gwneud bagiau plastig tenau yn anghyfreithlon; yn Benin, cânt eu hailgylchu i wneud breichledi neu fagiau ysgwydd.

- Yn yr UE, mae 5-10 miliwn tunnell fetrig o wastraff plastig o wahanol fathau yn cael eu llosgi neu eu claddu bob blwyddyn. Mae'n ofyniad ar aelodau'r UE i lunio deddfau ynglŷn â gwastraff, sy'n cynnwys ei ailddefnyddio a'i ailgylchu – nid ei gladdu yn y ddaear yn unig. Mae rhai gwledydd yn well am ailgylchu nag eraill – mae'r Iseldiroedd yn ailgylchu dros 60% o'i wastraff, ond dim ond 5% mae Portiwgal yn ei ailgylchu.

- Yn 2003, derbyniodd Senedd Ewrop ddeddf gyda'r ergyd mai'r "llygrydd oedd yn talu" – h.y. mai'r cwmnïau sy'n creu'r llygredd a ddylai dalu am ei lanhau, yn hytrach na'r trethdalwr. Mae'n bosibl bod trethu bagiau plastig yn erbyn ysbryd y gyfraith hon.

Gweithgareddau: Yn y bag

(1) Fesul grwpiau, cynlluniwch fag neu garton papur wedi ei addurno y gellir ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, a'i ddefnyddio yn lle bagiau plastig. Ceisiwch roi naws 'Ewropeaidd' iddo, fel bod modd ei ddefnyddio mewn unrhyw wlad.

(2) Amcangyfrifwch sawl bag plastig y bydd eich dosbarth yn defnyddio bob blwyddyn; yna sawl un a ddefnyddir gan eich tref, a gan Gymru gyfan. Yna gweithiwch allan pa mor bell i mewn i Ewrop y byddai'r bagiau yn estyn o'u gosod pen wrth ben.

Pwyntiau i'w trafod:

- Pam bod rhai gwledydd "ar y blaen" yn fwy nag eraill wrth ofalu am yr amgylchedd? Ydy hyn yn dderbyniol?
- A ddylai'r UE "orfodi" yr un polisi ar yr holl wledydd sy'n aelodau?
- A ddylid trethu bagiau siopa plastig? A ddylid gwahardd siopau yn llwyr rhag eu rhoi i gwsmeriaid?
- Beth yw eich barn chi am ailgylchu yn eich ardal? Beth am yn eich ysgol?

Allyriadau carbon

TGAU	CBAC, Daearyddiaeth – Y Byd Rhyng-ddibynol / Gweithgareddau Economaidd
A2	CBAC, Daearyddiaeth – Datblygu Cynaliadwy

- Yn 2002, cadarnhaodd pob aelod-wladwriaeth o'r UE (15 ar y pryd) **Brotocol Kyoto** – cytundeb cydwladol i leihau allyriadau o'r 'nwyon tŷ gwydr' sydd fel petaent yn cynhesu ein byd. Mae'r UE hefyd yn galw ar wledydd eraill i gadarnhau'r cytundeb, ac yn annog Unol Daleithiau America i ymuno.

- Mae'r UE yn cynhyrchu 22% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd. Erbyn 2010, ei nod yw lleihau ei allyriadau i 8% islaw eu lefel ym 1990.

- Mae system o **fasnach allyriadau** bellach yn ei le. Mae pob gwlad yn pennu terfyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chaiff 'werthu' unrhyw ran o'i lwfans nad yw'n defnyddio ei hun. Mae rhai yn dweud bod y system hwn yn gwneud gwledydd yn llai atebol am y llygredd y byddant yn ei gynhyrchu, a chyhuddwyd gwledydd o roi lwfansau gor-hael i'w diwydiannau ar bwrpas.

Gweithgaredd: Sefyllfa lygredig
Rhennwch y dosbarth yn bedwar grŵp i drafod y sefyllfa ganlynol:

> *Cyflwynir cynllun amgen i fasnachu allyriadau. Yn hwn codir dirwyon ar y diwydiannau yn yr UE sy'n llygru waethaf. Mae ffatri goncrid yng Nghymru yn cwyno y bydd yn rhaid iddi gau, gan nad yw'n gallu fforddio talu'r dirwyon trwm.*

Wedi'r drafodaeth gychwynnol hon, rhowch un o'r rhannau hyn i'w chwarae i bob grŵp:

- **Rheolwr y ffatri**. Eich prif bryder chi yw cadw eich ffatri ar agor. Efallai eich bod yn poeni am yr amgylchedd, ond yn eich barn chi mae dyfodol eich busnes a'ch gweithwyr yn bwysicach.
- **ASE lleol** (Aelod o Senedd Ewrop). Mae angen i chi gydbwyso anghenion y gymuned leol gyda'r angen i ddilyn cyfraith Ewrop.
- **Cynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd**. Eich gwaith chi yw amddiffyn polisi'r UE.
- **Ymgyrchydd amgylcheddol**. Rydych yn pryderu am lygredd yn y gymdogaeth, ac yn teimlo y dylid gorfodi busnesau i gydymffurfio â rheolau amgylcheddol.

Dylai disgyblion drafod eu gwahanol rannau yn fanwl; wedyn, dylai pob grŵp lunio datganiad byr ar eu safbwynt a phenodi llefarydd. Gallwch nawr alw cyfarfod lle y bydd y grwpiau yn ceisio dod o hyd i ateb i'r sefyllfa. Wedi i bob grŵp wneud ei ddatganiad, rhowch gyfle iddynt gynnal trafodaeth gyffredinol. Yn y man, gofynnwch i'r grwpiau llai i ddod yn ôl at ei gilydd i drafod a yw eu barn wedi newid, ac yna dewch â nhw ynghyd eto ar gyfer un drafodaeth lawn olaf.

Pwyntiau i'w trafod ymhellach:

- Pam ddylem ni ystyried anghenion busnesau, yn hytrach na dim ond anghenion yr amgylchedd?
- Dylai gwledydd fedru prynu hawl gwledydd eraill i lygru?
- Ydy hi'n well i wledydd unigol i benderfynu sut i fynd i'r afael â llygredd ac allyriadau carbon, yn hytrach na'r UE?

Cyflwyno cynaliadwyedd

Pam bod rhai penderfyniadau ynghylch datblygu cynaliadwy yn anodd i'w gwneud?

- Mae **datblygu cynaliadwy** yn golygu trin y byd fel pe byddem yma i aros – pryd bynnag y byddwn yn penderfynu rhywbeth, dylem ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol, ac nid ni ein hunain yn unig.

- Mae llawer o bobl yn credu bod datblygu cynaliadwy yn golygu dim ond gofalu am yr amgylchedd. Dim ond un agwedd ar y darlun yw hon. Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â thlodi, gofalu am gymunedau a chryfhau ein heconomi – ac weithiau bydd hi'n anodd i gyflawni'r holl bethau hyn ar yr un pryd.

- Dywed **Strategaeth Datblygu Cynaliadwy** yr UE bod gofyn i lywodraethau, busnesau a chyrff eraill i ddod at ei gilydd er mwyn sicrhau datblygu economaidd a chydlyniant cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd.

Gweithgaredd: Pwyso a mesur
Dyma rai o feysydd polisi yr UE sy'n effeithio ar ddatblygu cynaliadwy:

Datblygu economaidd	**Tlodi ac eithrio cymdeithasol**
Ynni a newid yn yr hinsawdd	**Cludiant**
Rheoli adnoddau naturiol	**Partneriaeth fyd-eang**

Fesul grwpiau o 4-6, ystyriwch sut y bydd y sefyllfaoedd canlynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r UE. A yw'r pwyntiau da am bob syniad yn bwysicach na'r pwyntiau gwael?

1. Codi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar draws Ewrop
2. Codi degau o filoedd o dai rhesymol eu pris yng Nghaerdydd a Chasnewydd
3. Symud canolfan alwadau o'r DG i Slofacia
4. Talu ffermwyr yn Ewrop i gynhyrchu siwgr ar gost isel, yn hytrach na'i fewnforio o Affrica

Pwyntiau i'w trafod:

- Beth sydd bwysicaf – gofalu am ein hanghenion ein hunain neu anghenion eraill? A yw hi'n bosibl i wneud y ddau ar yr un pryd?
- Pam ddylai gwledydd Ewrop ymuno i fynd i'r afael â chynaliadwyedd?
- A ddylem ni boeni sut siâp fydd ar y byd ymhen 10 mlynedd? Beth am 50 mlynedd? Neu 500 mlynedd?
- Sut dylai'r UE gydbwyso anghenion ei aelodau gydag anghenion gwledydd tlotach yn Affrica, Asia neu America Ladin?

Ynglŷn â Citaware

Nod Citaware yw cynyddu ymwybyddiaeth ein bod yn ddinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru, gan alluogi pobl o bob oedran i ymwneud â sefydliadau'r UE. Fe'i noddir gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i drefnu ar y cyd gan:

Welsh Centre for International Affairs
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA)
Fforwm cenedlaethol i gyfnewid syniadau am faterion rhyngwladol.
www.wcia.org.uk

CEWC CYMRU

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru
Adain ysgolion WCIA.
www.cewc-cymru.org.uk

EuropaWorld

EuropaWorld
Papur newydd ar-lein rhad ac am ddim sy'n trafod datblygu rhyngwladol o safbwynt Ewropeaidd.
www.europaworld.org